## Y datchwyddydd GDP, y Mynegai Prisiau Defnyddwyr, a chyfrifo effaith y sioc chwyddiant ar setliad Llywodraeth Cymru

### Y datchwyddydd GDP

Mae'r datchwyddydd Cynnyrch Domestig Gros (GDP) yn fesur o brisiau yn yr economi ddomestig. Mae'n adlewyrchu prisiau'r holl nwyddau a'r gwasanaethau a gynhyrchir yn yr economi mewn perthynas â'u gwir werth, gan ddefnyddio prisiau o flwyddyn sylfaen. Felly, mae'r newid yn y datchwyddydd GDP yn fesur eang o chwyddiant ar draws yr economi ddomestig. Nid yw'n ystyried newidiadau ym mhrisiau mewnforion.

### Y Mynegai Prisiau Defnyddwyr

Mae'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn mynegi prisiau cyfredol basged o nwyddau a gwasanaethau mewn cyfnod o'i gymharu â chyfnod sylfaen. Mae'r fasged yn adlewyrchu patrymau gwariant defnyddwyr y DU.

### Trafodaeth

Yn gyffredinol defnyddir y datchwyddydd GDP i gymhwyso cyfresi o ffigurau gwariant cyhoeddus at newidiadau mewn prisiau. Fe'i defnyddir i gyfrifo'r cyfraddau twf mewn termau real flwyddyn ar ôl blwyddyn yn y tablau sy'n cefnogi'r cynlluniau gwario yng Nghyllideb Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn sail i'r siartiau sy'n dangos y gyfres amser mewn termau real ar gyfer Cyllideb Llywodraeth Cymru ym mhrif ddogfen naratif y Gyllideb Ddrafft ac yn Adroddiad y Prif Economegydd.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi amcangyfrif effaith y sioc chwyddiant ddiweddar ar werth termau real setliad presennol yr Adolygiad o Wariant ar gyfer 2022-23 i 2024-25. Mae wedi gwneud hyn gan ddefnyddio'r rhagolygon a'r alldro ar gyfer y datchwyddydd GDP a'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

Ar adeg yr Adolygiad o Wariant, roedd disgwyl i brisiau yn 2024-25 fod 7% neu 8% yn uwch nag yn 2021-22 yn seiliedig ar ragolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ynghylch y datchwyddydd GDP a'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr, yn y drefn honno. Gan ddefnyddio rhagolygon diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, mae'r ffigurau cyfatebol bellach 15% ac 20% yn uwch yn 2024-25 nag yn 2021-22.

Yn gyffredinol, mae'r datchwyddydd a'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn tyfu mewn ffyrdd tebyg rhwng blynyddoedd. Fodd bynnag, maent wedi tyfu mewn ffyrdd gwahanol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae maint y sioc prisiau o'i gymharu â'r disgwyliadau hefyd wedi bod yn eithaf gwahanol. Mae hyn yn rhannol oherwydd prisiau mewnforio a gall hefyd adlewyrchu effeithiau parhaol y pandemig a effeithiodd yn arbennig ar y datchwyddydd yn 2020-21 a 2021-22. O ystyried y gwahaniaethau hyn, mae'n ymddangos yn annhebygol bod y datchwyddydd GDP yn adlewyrchu'n llawn y pwysau chwyddiant sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus. (Mae'r isod yn cymharu'r ddau fesur yn ystod y blynyddoedd diwethaf a chan ddefnyddio rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer mis Hydref 2021 a mis Tachwedd 2023.)

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno effaith y sioc chwyddiant gan ddefnyddio'r ddau fynegai prisiau yn siart 31 o Adroddiad y Prif Economegydd (a atgynhyrchir isod) ac wedi nodi mai'r effaith yw bod setliad 2024-25 yn werth hyd at £1.3 biliwn yn llai mewn termau real o'i gymharu â'r hyn a ddisgwyliwyd adeg Adolygiad o Wariant 2021.

Cyflwynir y ffigurau ym mhrisiau 2021-22, gan mai dyna'r flwyddyn y cynhaliwyd yr Adolygiad o Wariant. Mae Dadansoddi Cyllid Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd wedi cynhyrchu amcangyfrif o £1.5 biliwn ar gyfer effaith y sioc chwyddiant ar Gyllideb 2024-25 gan ddefnyddio'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr, drwy ei drosi i brisiau 2024-25. Mae honno'n ffordd yr un mor ddilys o gyflwyno'r metrig hwn.


Y neges allweddol yw, er gwaethaf y cynnydd i setliad Llywodraeth Cymru ers yr Adolygiad o Wariant diwethaf, mae pŵer gwario Llywodraeth Cymru yn dal i fod yn sylweddol is mewn termau real na'r disgwyl ar adeg yr Adolygiad.

**Twf o flwyddyn i flwyddyn mewn prisiau, data a rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (%)**

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Hydref 2021 | | | | | | | | | |
| Datchwyddydd GDP | 2.2 | 1.7 | 2.0 | 2.4 | 6.7 | -0.7 | 2.7 | 2.2 | 1.9 |
| Mynegai prisiau defnyddwyr | 1.1 | 2.8 | 2.3 | 1.7 | 0.6 | 3.3 | 3.7 | 2.3 | 2.0 |
| Tachwedd 2023 | | | | | | | | | |
| Datchwyddydd GDP | 2.3 | 1.6 | 2.1 | 2.4 | 5.4 | -0.8 | 6.7 | 6.1 | 1.7 |
| Mynegai prisiau defnyddwyr | 1.1 | 2.8 | 2.3 | 1.7 | 0.6 | 4.0 | 10.0 | 6.1 | 3.0 |

Ffynhonnell: Trysorlys ei Fawrhydi a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol

**Siart 31: Gwahaniaeth yn setliad Llywodraeth Cymru mewn termau real ers mis Hydref 2021 gan ddefnyddio gwahanol fesurau o chwyddiant (£m, prisiau 2021-22)**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru